

## CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL ABERCONWY

### ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI: GORFFENNAF 2024

Roedd y Corff Llywodraethol yn cynnwys (ar 02.07.24):

<b>Cynrychiolwyr AALI*:</b>	Dr. B. Bignold (2017), Cyng. S. Grady (2022), Mr M. Neale (2023),
<b>Rhiant-Llywodraethwyr:</b>	Mr P. Hughes (2014), Mrs K. Bond (2015), Mr M. Teasdale (2022), Mrs R. Jones (2024), Dr R. Walker (2024) a Ms S. Baldwin (2024).
<b>Athro-Llywodraethwyr:</b>	Ms J. Hughes (2012) a Mr R. Burrows (2012).
<b>Cynrychiolydd Staff:</b>	Mrs J. Meredydd (2015).
<b>Aelodau Cyfetholedig:</b>	Mrs P. Hart (2015), Mrs H. Roberts (2016), Mr T. James (2012), Ms E. Leighton-Jones (2023), Mrs S. Lesiter-Burgess (2024).

Gellir cysylltu â phob llywodraethwr trwy ysgrifennu at glerc y llywodraethwyr, Miss Lynn Jones, yn yr ysgol.

Cyfarfu'r Corff Llywodraethol fel Corff Llywodraethol Llawn ar 4 achlysur. Cyfarfu Pwyllgorau Personél a Chyllid 3 gwaith.

Penderfynodd y Corff Llywodraethol ar y gyllideb, y cwricwlwm a sefydliad staffio'r ysgol yng ngoleuni'r dyraniad cyllideb a wnaed gan ALI Conwy. Mae datganiad y gyllideb ynghlwm. **Atodiad A.**

Mae aelodau unigol o'r Corff Llywodraethol wedi mynychu sesiynau Hyfforddi Llywodraethwyr. Mae'r rhain yn cynnwys: RhCDdD (GDPR), Caethwasiaeth Fodern, Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl, Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi adolygu'r polisiau canlynol yn ystod 2023/24, ac yn cymeradwyo'n llawn arfer yr ysgol yn y meysydd canlynol: Cydraddoldeb Strategol, Mwy Galluog a Thalentog, Camymarfer, Cais Gwrthrych am Wybodaeth, Diogelu Gwybodaeth, Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Caniatâd Diogelu Data, Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio, Gweithio Hyblyg, Arholiadau Wrth Gefn, Arholiadau a Di-arholiad, Rheoli Presenoldeb Staff, Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, Cyfathrebu Iaith a Llythrennedd, Gwrthdaro Buddiannau, Ystyriaeth Arbennig, Teithiau Dysgu, Codi Tâl, Ymddygiad a Disgyblaeth Disgyblion, Rhyddhau ar gyfer Cymedroli a Marcio, Sefydlu ANG, Chwythu'r Chwiban, Derbyniadau, Tâl, Hunaniaeth Rhywedd, Cwynion, Amddiffyn Plant, Gwisg Ysgol, Ad-dalu Treuliau a Digwyddiadau Tyngedfennol.

#### **Crynodeb o'r Arholiadau**

Mae crynodeb o ganlyniadau'r arholiadau ysgol ynghlwm. **Atodiad B.**

#### **Cwricwlwm yr Ysgol**

Mae Cwricwlwm yr Ysgol yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol; Cwricwlwm i Gymru ac yn ymgorffori polisiau'r Corff Llywodraethol ac Awdurdod Addysg Conwy. Mae copïau o orchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, polisiau ysgol a datganiad cwricwlwm Awdurdod Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol. Ceir 25 o wersi yn ystod yr wythnos; 5 gwers bob dydd, pob un yn 60 munud o hyd.

#### **Blwyddyn 7**

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn newydd i ysgolion ac fe'i gweithredwyd eleni ym Mlwyddyn 7. Ei nod yw mynd ar drywydd y 'Pedwar Diben' sy'n gyffredin i holl ysgolion Cymru. Y Pedwar Diben yw ein gweledigaeth ar gyfer pob plentyn; eu bod yn datblygu'n ddinasyddion uchelgeisiol, iach, creadigol a moesegol wybodus. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar ddsygu a wneir mewn ysgolion cynradd partner ac yn datblygu ymhellach wybodaeth a sgiliau myfyrwyr.

Mae pynciau'n cael eu grwpio yn MDPH – *meysydd dysgu a phrofiad*. Mae chwe MDPH – *leithoedd; Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; Dyniaethau; Celfyddydau Mynegiannol; Iechyd a Lles a Gwyddoniaeth a Thechnoleg*. Ym Mlwyddyn 7, mae disgyblion yn cael gwersi wythnosol mewn leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (*Saesneg, leithoedd Rhyngwladol a Chymraeg*); Mathemateg, AG ac ABChI. Mae'r MDPH eraill yn cyflwyno'u cwricwlwm trwy ddull sy'n seiliedig ar brosiectau. Bydd disgyblion yn astudio dau brosiect ar yr un pryd am 10 wythnos cyn symud ymlaen at y ddau brosiect nesaf. Mae hyn yn golygu y byddant wedi cwblhau wyth prosiect ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh) yn ystod Blwyddyn 7.

### Blynyddoedd 8 a 9

Ym Mlynyddoedd 8 a 9 caiff y cwricwlwm ei adeiladu o amgylch gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae pob disgybl yn astudio: Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Dylunio a Thechnoleg, Iaith Dramor Fodern, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, TGCh ac Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd.

### Blynyddoedd 10 ac 11

Mae pob disgybl yn parhau i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol craidd, sef Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd a Bagloriaeth Cymru. Mae disgyblion hefyd yn cael y cyfle i barhau i ddewis cyrsiau i'w dilyn ym Mlynyddoedd 10 ac 11.

### Y Chweched Flwyddyn, Blynyddoedd 12 a 13

Mae cyfran helaeth o fyfyrwyr Blwyddyn 11 yn dychwelyd i Chweched Dosbarth Ysgol Aberconwy i ddilyn cyrsiau un neu ddwy flynedd. Mae'r mwyafrif yn dilyn cyrsiau sy'n arwain at dri phwnc Safon Uwch neu BTEC ynghyd â Bagloriaeth Cymru Uwch. Cynigir ystod eang o gyrsiau gan gynnwys cyrsiau ar y cyd â darparwyr eraill. Mae LINC Conwy yn darparu ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac analwedigaethol yn ychwanegol at hyn.

### Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nod y Polisi Cefnogi Dysgu yw adeiladu ar ddull 'Cynhwysol' o ddiwallu anghenion myfyrwyr. Mae'r strwythurau presennol sydd ar waith i wneud hyn yn cynnwys:

- Rhaglen Ymyrraeth Cefnogi Dysgu.
- Rhaglen Dyfal Donc ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- Cynhwysiant Gymdeithasol – Canolfan Cefnogi Myfyrwyr (Hafan)
- Cefnogaeth ddynodedig yn y dosbarth ar draws y cwricwlwm
- Canolfan Dyslecsia Aberconwy (ABCD)
- Hwb ASA 'Pontio' yn cynnig blwch offer, cofrestru a chlybiau egwyl/cinio.
- Cefnogaeth 1:1 a grwpiau bach.
- Darpariaeth sirol ar gyfer disgyblion ag ASA (Tegfan)
- Grŵp cofrestru meithrin ym Mlwyddyn 7 – Morfa Bach.

Mae'r ysgol yn y broses o drosglwyddo i'r system ADY newydd ac ar hyn o bryd ar y trywydd iawn o ran trosglwyddo'r blynyddoedd mandadol i'r system newydd lle bydd dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol sydd angen darpariaeth ychwanegol i'r hyn sydd ar gael i bawb trwy ddarpariaeth gyffredinol yn symud i CDU (Cynllun Datblygu Unigol). Bydd gweddill y disgyblion yn symud ymlaen i'r system newydd erbyn diwedd tymor yr haf 2025.

Mae gan y gofrestr ADY gyfansymiau fel y nodir yn y tabl isod ar gyfer y flwyddyn 2023-2024:

Blwyddyn	Hen System AAA				System ADY Newydd		Cyfansymiau
	A	P	Cytundeb	St	CDP C	CDP L	
7	0	0	0	0	16	13	29
8	11	5	2	1	6	9	34
9	5	1	0	0	12	11	29
10	6	1	0	1	6	11	25
11	2	0	0	1	7	11	21
12	0	0	0	0	0	1	1
13	0	1	1	0	0	0	2
<b>Cyfansymiau</b>	24	8	3	3	47	56	141

Mae'r ysgol yn defnyddio Eclipse, sef y meddalwedd a ddyluniwyd i sicrhau bod dogfennaeth ADY sy'n bwydo i mewn i'r CDUau (Cynlluniau Datblygu Unigol) newydd a fydd yn disodli'r hen CAUau (Cynlluniau Addysg Unigol) yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn cynnwys tystiolaeth gywir.

Mae'r system ADY newydd yn pwysleisio mwy o gydweithio, a phwysigrwydd darparu cefnogaeth a gwybodaeth er mwyn sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mrs Medwen Brookes yw'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Ms E. Leighton-Jones yw'r Llywodraethwr a enwyd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig.

### **Disgyblion ag Anableddau**

Ystyrir anghenion disgyblion ag angen neu anabledd dysgu penodol wrth drefnu a rheoli amgylchedd dysgu Ysgol Aberconwy. Gwneir defnydd priodol o wahaniaethu yng nghynnwys a dull cyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion dynodedig.

Mae pob ardal o'r ysgol yn hygyrch i fyfyrwyr anabl gyda manau mynediad anabl yn eu lle. Mae'r adeilad yn gwbl gydnaws â'r DGA. Mae cynllun hygyrchedd llawn ar gael gan yr ysgol.

### **Datganiad ar Ddarpariaeth Gymraeg**

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yw Ysgol Aberconwy, gyda'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith ar draws pob ystod oedran a gallu. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac yn cyflwyno rhaglen astudio Cymraeg fel Ail Iaith (Cwrs Llawn) hyd at ddiwedd CA4.

Y tu allan i wersi Cymraeg ffurfiol, nod Ysgol Aberconwy yw sicrhau ethos sy'n gwireddu potensial cyfathrebol Cymraeg llafar ac ysgrifenedig ac sy'n creu cyfleoedd i bwysleisio treftadaeth Cymru. Felly, mae datblygu cymuned ysgol ddwyieithog yn flaenoriaeth.

Mae disgyblion yn cael y cyfle i barhau i astudio'r Gymraeg fel iaith 1af hyd at lefel TGAU. Cylchredir rhestrau o ddysgwyr da/rhugl a nodwyd i annog yr holl staff i gyfathrebu yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac anogir staff i gyfarch disgyblion yn Gymraeg. Mae pob gwasanaeth yn cynnwys peth cynnwys Cymraeg ac mae'r gwasanaeth Nadolig blynyddol a disgwyddiadau cerddorol yn ddwyieithog. Mae ffocws ysgol gyfan ar iaith a diwylliant Cymru yn ystod yr wythnos Dathlu Dewi Sant flynyddol gyda'i gwasanaethau, gweithgareddau a chystadlaethau.

Mae gan wefan yr ysgol opsiwn Gymraeg ac mae pob llythyr at rieni, cylchlythyr a deunydd hyrwyddo'r ysgol yn ddwyieithog.

Arddangosir arwyddion a phosteri dwyieithog mewn manau amlwg o amgylch yr ysgol, e.e. ffreutur, prif fynedfa, neuadd, llyfrgell ac ati, a hyrwyddir Ymadrodd Cymraeg yr Wythnos ar sgrîn wybodaeth y disgyblion. Cyferchir ymwelwyr â'r ysgol yn Gymraeg gan staff y swyddfa.

Mae'r holl ddisgyblion sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol gynradd yn cael eu gosod mewn grwpiau dosbarth LLC ac yn cael tiwtor dosbarth sy'n siarad Cymraeg, sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddefnyddio'r iaith bob dydd. Mae adnodd 'Cic i'r bore' wedi cael ei datblygu ar gyfer cyfnodau cofrestru blynyddoedd 7 ac 8, gan godi ymwybyddiaeth o ddyddiadau a digwyddiadau pwysig ar ar y calendr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau difyr. Mae 'Clwb y Caban' yn cael ei gynnal bob amser cinio, gydag ymweliadau rheolaidd gan yr Urdd, sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn parhau i gyflwyno enwau Cymraeg ar gyfer rhannau allweddol o'r ysgol gan sicrhau bod geiriau Cymraeg yn dod yn rhan arferol o'r iaith a ddefnyddir bob dydd yn yr ysgol. Yn ddiweddar iawn rydym wedi cyflwyno enwau mynyddoedd Cymru i'r gwahanol ddsosbarthiadau yn Tegfan, gan gynnwys Aran, Arennig, Tryfan a Siabod, ac wedi enwi'r ddau brif fuarth yn 'Y Sgwâr' a 'Glanrafon'. Rydym wedi comisiynu artist Cymraeg lleol i ddylunio a phaentio murluniau ar gyfer rhannau allweddol o'r ysgol fel 'Y Porth'. Mae Luned Davies Parry, un o'r athrawon Cymraeg, wedi ysgrifennu cerdd sy'n tynnu sylw at arwyddocâd pob ardal allweddol ac mae'r rhain i'w gweld ar y murluniau.

Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio ar y cynllun 'Siarter Iaith' a ni yw'r ysgol uwchradd gyntaf yn rhanbarth GwE Gogledd Cymru i dderbyn y wobr arian. Cynlluniwyd hyn i ddatblygu ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol gan ddisgyblion a staff yn ogystal ag yn y gymuned leol.

## Manylion trefniadau i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

- Unwaith eto, yn Ysgol Aberconwy roedd ystod eang o ddigwyddiadau amrywiol ar gael ar y cwricwlwm ac yn allgyrsiol. Rydym wedi ehangu ac adolygu ein rhaglen i gynnig amrywiaeth eang o chwaraeon bob tymor.
- Yn ystod 2023/24 rydym wedi ehangu'r ystod o weithgareddau sydd gennym i'w cynnig i bawb, ond yn enwedig i ferched. Rydym wedi parhau i ddatblygu cysylltiadau llwyddiannus gyda chlybiau criced a golff Conwy i ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr roi cynnig ar y chwaraeon hyn.
- Cynigir cymwysterau a chyfleoedd arweinyddiaeth a gydnabyddir yn genedlaethol yn ystod amser cwricwlwm (1<sup>st</sup>4Sport Lefel 2 mewn Arwain Gweithgareddau). Mae'r rhain yn dechrau cael eu cyflwyno ar y cyd gyda Achieve More Training. Mae hyn yn rhoi'r sgiliau eithriadol sydd eu hangen ar fyfyrwyr i fod yn llwyddiannus wrth arwain gweithgareddau sy'n cefnogi ein hadran AG, fel diwrnod mabolgampau.
- Fel rhan o'n datblygiadau ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, ein nod fu darparu ystod eang o gyfleoedd amrywiol, gan ddatblygu'r hyder a'r cymhelliant i gymryd rhan mewn chwaraeon gydol oes. O hyn, mae pob myfyriwr Blwyddyn 7 wedi cael sesiynau mewn Diogelwch dŵr ac achub bywyd ym Mhwl Nofio Llandudno; wedi profi defnyddio'r Trampolinau Olympaidd sydd gennym i'w cynnig yn yr ysgol ac wedi rhoi cynnig ar chwaraeon newydd sy'n dod i'r amlwg, megis KinBall.
- Mae 2023/24 wedi parhau i fod yn flwyddyn eithriadol ar gyfer llwyddiant chwaraeon unigolion a thîm i fyfyrwyr Ysgol Aberconwy, oherwydd y rhaglen allgyrsiol ragorol. Yn ystod y flwyddyn academaidd, but 50+ o gemau i fyfyrwyr ar draws amrywiaeth o chwaraeon.
  - Gwelwyd llwyddiannau tîm ym Mhêl-droed Cwpan Cymru gyda phob grŵp oedran yn symud ymlaen trwy rowndiau 1 a 2. Yn fwyaf amlwg, aeth bechgyn Blwyddyn 10 allan mewn gêm derfynol Eryri agos cyn y cam cenedlaethol. Mae ein tîm bechgyn Blwyddyn 7 yn dangos addewid anhygoed, wrth iddynt fynd allan yn 16 olaf Cwpan Cymru i Ysgol Uwchradd Cei Connah mewn gêm a allai fod wedi mynd y naill ffordd neu'r llall, gyda'r amodau stormus yn gwneud y gêm yn her anodd.
  - Mwynhaodd ein timau criced merched D13 a 15 lwyddiant, gan gyrraedd rowndiau terfynol Twrnameintiau Gogledd Cymru dan do ac awyr agored, yn y drefn honno.
  - Coronwyd tîm Athletau Bechgyn D16 yn Bencampwyr Sir Conwy ym mis Mehefin, o fewn dim i gyrraedd y rownd genedlaethol yng ngham Eryri.
  - Parhaodd ein timau pêl-rwyd i oruchafu ar draws y sir gyda'n Pencampwyr D15 a D16 Conwy. Llwyddodd ein tîm D16 i gyrraedd Pencampwriaethau Eryri Ann Smart, gan orffen yn 3ydd.
  - Roedd tîm Traws Gwlad y Bechgyn Canol yn dominyddu ac yn bencampwyr tîm yn y gystadleuaeth gyda 3 myfyriwr yn gorffen yn y 5 uchaf, i'w coronu'n bencampwyr sir.
  - Yn nhimau 7 bob ochr yr Urdd, collodd y bechgyn D13 yn y rownd gyn-derfynol plât yn eu twrnamaint cyntaf.
  - Daeth ein tîm rownderi cymysg D9 yn 2il yng Nghystadleuaeth Rhyng-Ysgolion Conwy.

## Llwyddiannau Unigol

- Jaxen Winmill - Pêl-droed Cymru - Grŵp Oedran 2011
- Zach Jones - Medal Aur Codi Pwysau Cymru x 3
- Mae Shana Kelly yn parhau i Gynrychioli Criced Cymru drwy gydol tymor yr haf a thrwy raglen y gaeaf.
- Sam Stewart Ball - Rhaglen NSR Prydain Fawr; Enillydd Ieuencid yr Alban; 3 x Medalau Trac Arian Cymru
- Lacey Williams : Carfan Genedlaethol Pêl-rwyd dan 15 Cymru yn cynrychioli'r wlad yn barhaus drwy gydol y flwyddyn yn arbennig ym Mhencampwriaethau Ewrop yn Gibraltar yn erbyn Yr Alban, Lloegr, Emiradau Arabaidd Unedig ac Iwerddon. Hefyd, Academi Ranbarthol Gogledd Orllewin Cymru D17
- Lucas Thomas - Cymhwyster Nofio Gemau Cenedlaethol y Pasg, Nofio Broga 200m Efydd yng Nghenedlaethol yr Haf 2023
- Ewan Leonard - Nofio Gemau Cenedlaethol y Pasg: Medal Aur 200m Pili-pala; Efydd 800m CB; Efydd 1500m CB; Medal Pili-pala 100m. Tîm Triathlon Cymru
- Alfie Shiland - Ysgolion Eryri D15 1500m & D17 3000m, Pencampwriaeth Dan Do Cymru 2023 - Arian yn 3000m D15, Pencampwriaeth Dan Do Cymru 2024 - Efydd mewn 3000m D17"
- Lucian Barnett - Hoci Rhyngwladol Cymru dan 18 oed
- Martha Jones - Pencampwriaeth Nofio Gogledd Cymru - Rhanbarthau; Enillydd rowndiau Rhagbrofol Gemau Cenedlaethol y Pasg mewn: 100m Pili-pala; 50m Pili-pala; 100m Rhydd; 200m MI & 50m Rhydd
- Enzo Shiland Griffiths - Pencampwriaeth Nofio Gogledd Cymru 2023 a 24 - enillydd Medal Aur, Arian ac Efydd; Cymhwysu ar gyfer Gemau Cenedlaethol y Pasg 2024 - 200m NB; 200m MU; 200m Rhydd; 50m Rhydd; 50m Cefn; 100m Rhydd; 100m Cefn
- Amalie Jones - Carfan Genedlaethol Pêl-rwyd D15 Cymru; Academi Ranbarthol Gogledd Orllewin Cymru D17 (pêl-rwyd)

- Keira Williams - Cymhwys ar gyfer Gemau Cenedlaethol yr Haf 2023+24 D13 (nofio) - 200m NB; 100m NB; 50m NB
- Lyla Williams - Cymhwys ar gyfer Gemau Cenedlaethol yr Haf 2024 D13 – (nofio) 200m MU; 200m NB; 100m NB; 50m NB; 50m Rhydd
- Nell Shannon - D16/D18 Gogledd Cymru (v datblygiad De Lloegr a Swydd Gaer), Rownd Derfynol Clwb Cenedlaethol 3ydd.
- Spencer Parry - Bocsio'r Tair Gwlad i Gymru, Pencampwriaethau Cenedlaethol Cymru x2 (medal arian)
- Olivia Jones - Academi Ranbarthol Gogledd Orllewin Cymru D15
- Macie Williams - Enillodd Bencampwriaeth Merched dan 16 Cymru mewn Carate yng Nghaerdydd.



## **Iechyd a Lles**

Mae darpariaethau Iechyd a Lles iACH Ysgol Aberconwy yn cael eu hystyried yn eang fel model o arfer gorau. Ni oedd un o'r ysgolion cyntaf i gyflogi arweinydd Iechyd a Lles ac ers hynny rydym wedi ymateb i anghenion ac ymddygiadau Iechyd a Lles ein myfyrwyr a'n staff ysgol gyfan. Rydym yn mabwysiadu agwedd ataliol at ein gwaith ac mae'r 5 ffordd at lesiant wrth wraidd popeth a wnawn. Mae grwpiau myfyrwyr fel y grŵp iACH, y cyngor ysgol a Thîm Chwaraeon Aberconwy yn llywio ac yn arwain ymgyrchoedd Iechyd strategol sy'n mynd i'r afael ag anghenion Iechyd penodol grwpiau blwyddyn neu gymdeithasol penodol.

Cyflawnwyd gwobr 'Ysgol Iach' yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid y Llynedd gydag Ysgol Aberconwy wedi'i dewis fel un o ddim ond 9 ysgol ar draws y Deyrnas Unedig gyfan sy'n cyrraedd y safon ofynnol i fod yn 'Ysgol Iach'. Rydym yn hynod falch o fod yr unig ysgol (cynradd ac uwchradd) yng Nghymru i dderbyn y statws ysgol hwn.

Yn adroddiad 'Dull Gweithredu Ysgol Gyfan mewn perthynas â Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol' Llywodraeth Cymru, adroddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod "Ysgol Aberconwy yn ysgol eithriadol sy'n cael effaith sylweddol yn y sector addysg. Mae eu hymagwedd ragweithiol at hunanasesu WSAEMWB a'i gwaith ym maes Iechyd a Lles emosiynol a meddyliol yn fodel i ysgolion eraill ei ddilyn."

Mr Rhydian Jones (arweinydd Iechyd a Lles) yw'r athro llawn amser cyntaf i gael ei hyfforddi fel Hyfforddwr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Ers hynny mae wedi hyfforddi ac achredu 92 o aelodau staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu Cyngor Conwy ac Ysgol Aberconwy fel Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Mae holl fyfyrwyr blwyddyn 7 wedi cael eu hyfforddi fel swyddogion cymorth cyntaf Iechyd meddwl mini yn ystod eu prosiect Iechyd iACH cwricwlwm newydd. Gwahoddodd GwE Ysgol Aberconwy i gyflwyno ein gwaith ar les staff ar draws y rhanbarth cyfan ac roeddent yn ganmoliaethus iawn o'r gwaith a arweiniodd at ail-achredu 'Safon Iechyd Corfforaethol' a sut roedd ein rhaglen iACH yn ganolbwynt i'n blaenoriaethau ysgol ac yn amlwg yn ethos yr ysgol gyfan.

Rydym wedi cyflwyno ein gwaith iACH yng Nghynhadledd Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghaerdydd yn ogystal ag i holl gynrychiolwyr ysgolion iach ysgolion uwchradd a chynradd Conwy. Rydyn ni'n rhannu ein gwaith Iechyd a Lles gyda'n hysgolion cynradd bwydo fel bod negeseuon cyson am sut beth yw ffordd iach a chytbwys o fyw. Mae gwaith cwricwlwm newydd blwyddyn 7 yn canolbwyntio ar bwysigrwydd agwedd gyfannol at bwysigrwydd cyfartal Fy Nghorff (Iechyd Corfforol), Fy Mywyd (Iechyd Cymdeithasol) a Fy Meddwl (Iechyd Meddwl). Mae Ysgol Aberconwy hefyd wedi bod yn rhan o Astudiaeth Achos Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion Rhyngwladol (SHRN) o ran sut rydym yn ymgorffori addysg bwyd ac ysgol goedwig yn ein gwaith iACH. Mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi'r cyfle i ni ddatblygu ein darpariaethau iACH, ABCI ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ymhellach ac rydym yn gyffrous iawn am y posibilrwydd o barhau i gynnig nofio goresi personol, trampolinio, coginio dan do/awyr agored ac ymweliadau â bwthyn Bod-silin yn ein darpariaeth cwricwlwm.

## **Codi Arian Cymunedol**

Mae apeliadau codi arian Ysgol Aberconwy yn parhau i fynd o nerth i nerth. Y llynedd codwyd swm anhygoel o £3,257 tuag at Plant Mewn Angen fel rhan o'n hapêl elusennol genedlaethol. Rydym bellach yn ein hail flwyddyn yn arwain apêl Elusen Leol FirstGive blwyddyn 7 lle mae pob dosbarth cofrestru Blwyddyn 7 yn dewis eu helusen leol eu hunain i'w chefnogi. Dewiswyd Hosbis Dewi

Sant, Crest, iechyd meddwl amaethyddol DPJ, Ymchwil Canser, Cyn-filwyr Dall a Banc Bwyd Conwy a'u gwahodd i gynllunio gweithredu cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau codi arian ac ymwybyddiaeth. Eleni rydym yn edrych i adeiladu ar y gweithgareddau cymdeithasol anhygoel, codi ymwybyddiaeth a'r £3000 a godwyd ar y cyd â'n taith gerdded noddedig ysgol gyfan ar ran ein helusennau lleol.

Yn ogystal â'r apelïadau hyn rydym wedi sefydlu partneriaeth gref gyda Banc Bwyd Conwy gydag apelïadau a chasgliadau rheolaidd. Rydym hefyd wedi partneru gyda'r Eglwys yng Nghonwy gyda dros 50 o'n teuluoedd mwyaf anghenus yn elwa o basgedi bwyd 'Bagiau Cariad' misol yn cael eu dosbarthu i'w drws. Mae gennym fyfyrwyr a gwirfoddolwyr staff sy'n helpu gyda phacio a dosbarthu bwyd ac sy'n codi arian i sicrhau llwyddiant parhaus y gefnogaeth amhrisiadwy hon.

**Dosbarth Confucius**

Mae rhaglen yr ysgol a ariennir gan Lywodraeth Tsieina yn galluogi disgyblion yn yr ysgol i astudio Mandarin a diwylliant Tsieineaidd. Darperir athro gan Lywodraeth Tsieina. Mae Ysgolion Cynradd Lleol hefyd yn elwa o'r cyfleuster.

**Dyddiadau Tymor 2024 – 2025**

**TYMOR YR HYDREF  
2024**

<b>*Dyddiau Hyfforddi Staff</b>	<b>*02/09/2024</b> <b>*03/09/2024</b>
Dechrau Tymor	04/09/2024
Cau am Hanner Tymor	25/10/2024
Agor ar ôl Hanner Tymor	04/11/2024
Diwedd Tymor	20/12/2024
<b>GWYLIAU NADOLIG</b>	

**TYMOR Y GWANWYN  
2025**

<b>* Dyddiau Hyfforddi Staff</b>	<b>*28/03/2024</b>
Dechrau Tymor	06/01/2025
Cau am Hanner Tymor	21/02/2025
Agor ar ôl Hanner Tymor	03/03/2025
Diwedd Tymor	11/04/2025
<b>GWYLIAU'R PASG</b>	

**TYMOR YR HAF 2025**

<b>* Dyddiau Hyfforddi Staff</b>	<b>*30/06/2025</b>
Dechrau Tymor	28/04/2025
Calan Mai	<b>05/05/2025</b>
Cau am Hanner Tymor	23/05/2025
Agor ar ôl Hanner Tymor	02/06/2025
Diwedd Tymor	18/07/2025
<b>GWYLIAU'R HAF</b>	

**Toiledau**

Mae gan yr ysgol gyfleusterau toiledau helaeth a gynhelir i safon uchel iawn gan y contractwr PFI. Mae'r bloc newydd, a ddyluniwyd mewn ymgyngoriad â'r cyngor ysgol, yn darparu toiled mynediad agored o ansawdd uchel sy'n hawdd ei oruchwylio ac sydd wedi bod yn boblogaidd iawn gyda disgyblion.

Alldro

2022-23

2023-24

Costau Staff	5,724,834	6,338,564
Safle	774,884	793,151
Cludiant	10,267	14,079
Cyflenwadau a Gwasanaethau	632,127	663,651
<b>Cyfanswm Gwariant Net</b>	<b>7,142,112</b>	<b>7,809,445</b>
<b>Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael</b>	<b>7,516,912</b>	<b>7,976,093</b>
<b>Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen</b>	<b>374,800</b>	<b>166,648</b>

Adnoddau

2022-23

2023-24

Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen	319,450	386,835
Dyraniad Cyn 16	5,960,183	6,199,346
Dyraniad Ôl-16	667,019	695,612
Dyraniad EIG	68,616	63,075
Grant Dysgu Proffesiynol	27,511	27,854
Grantiau Eraill	474,133	603,371
<b>Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael</b>	<b>7,516,912</b>	<b>7,976,093</b>
<b>Cyfanswm Gwariant Net</b>	<b>7,142,112</b>	<b>7,809,445</b>
<b>Cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen</b>	<b>374,800</b>	<b>166,648</b>

## Gwybodaeth am Gyrcfannau

### Cyrcfannau Blwyddyn 11 (2022 – 23)

Categori	Niferoedd	%
Parhau mewn addysg amser llawn, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith	128	87.7%
Wedi symud ymlaen i waith cyflogedig	10	6.8%
NEET	5	3.4%
Anhysbys	3	2.1%

### Cyrcfannau Blwyddyn 13 (2022 – 23)

Categori	Niferoedd	%
Parhau mewn addysg amser llawn, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith	54	77%
Wedi symud ymlaen i waith cyflogedig	7	70%
NEET	2	2.9%
Anhysbys	7	10%